



Cam 6: Cyllidebu

Amcanion dysgu

- Gweithio o fewn cyllideb
- I ddatrys problemau aml-gam

Trosolwg o'r cam

Gellid cwblhau'r wers hon ar ôl neu yn ystod bloc o ddysgu ar ddulliau adio a thynnu ysgrifenedig neu gyfrifo gydag arian. Mae'n caniatáu i'r plant gymhwyso eu dysgu i ddatrys problemau bywyd go iawn ac mae'n rhoi pwrpas atyniadol i'r rhai a allai gael eu dadrithio gan Fathemateg.

Gallai'r plant ddarganfod cost eu cynhwysion gan ddefnyddio gwefan archfarchnad, neu fe allech chi gwblhau'r wers hon mewn archfarchnad a rhoi cyfle iddyn nhw dalu am eu heitemau eu hunain.

Deunyddiau sydd eu hangen:

- Mynediad i'r rhyngrwyd neu archfarchnad

Nodiadau cyflwyno

Sleid 2: Y diffiniad o 'gyllideb'	<ul style="list-style-type: none">• Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw'n deall ac yn gallu egluro'r term 'cyllideb'.• Mae cyllideb yn swm penodol o arian y mae'n rhaid i fusnesau ei wario dros gyfnod penodol o amser.• Esboniwch mai eu cyllideb fydd y swm o arian y mae'n rhaid iddynt ei wario ar gynhyrchu eu cynnyrch.
Sleid 3: Cyflwyno'r dasg	<ul style="list-style-type: none">• Bydd gan y plant gyllideb o £1 fesul aelod o'r grŵp i brynu'r cynhwysion ychwanegol sydd eu hangen i wneud y cynnyrch maen nhw wedi'i ddylunio.• Esboniwch y bydd y plant yn gallu defnyddio'r menyng y byddwn ni'n ei wneud yn y sesiwn nesaf fel nad oes angen iddyn nhw gynnwys hynny yn eu cyfrifiadau ond bydd angen prynu unrhyw gynhwysion eraill gan ddefnyddio eu cyllideb, gan gynnwys y rhai ar gyfer y rysâit tarten sylfaenol, ee blawd.• Os canfyddant na allant fforddio eu syniadau gwreiddiol, bydd angen iddynt addasu eu rysâit a meddwl am ffyrdd o ddatrys y broblem bywyd go iawn hon. Dyma gyfle gwyh i'r plant weithio ar eu sgiliau adio, tynnu, datrys problemau a chydweithio.• Gellid asesu sgiliau iaith lafar hefyd wrth wrando ar y trafodaethau datrys problemau sy'n digwydd.



Sleid 4: Mathemateg gydag ystyr

- Os ydych chi'n cwblhau'r cam hwn yn yr ystafell ddosbarth, modelwch sut i ddefnyddio gwefan yr archfarchnad i chwilio am eu cynhwysion a'u harchebu fel y gallant weld yr opsiynau cynnyrch yn nhrefn eu pris.
- Anogwch y plant i feddwl yn ofalus pa ddulliau cyfrifo ysgrifenedig fydd y mwyaf effeithlon i'w defnyddio yng nghyd-destun y broblem hon. Cymerwch awgrymiadau ar gyfer y dulliau sydd wedi cael sylw ac arwain trafodaeth ar yr un fwyaf effeithlon i'w defnyddio.
- Trafodwch yr awgrymiadau gorau ar gyfer cyfrifo gyda degolion.
- Modelwch y dull yr hoffech iddynt ei ddefnyddio ar gyfer adio a thynnu gyda degolion os oes angen.
- Pwysleisiwch bwysigrwydd cywirdeb wrth gyfrifo cyfanswm eu cost i sicrhau eu bod yn aros o fewn eu cyllideb. Anogwch y plant felly i wirio eu gwaith a chymryd awgrymiadau ar gyfer dulliau y gallent eu defnyddio ar gyfer hyn.
- Os ydych chi'n cwblhau'r sesiwn hon yn yr ystafell ddosbarth, unwaith y bydd y plant wedi cyfrifo cost prynu eu deunyddiau a gwirio eu bod wedi aros o fewn eu cyllideb, gofynnwch iddynt ysgrifennu rhestr siopa i'w hathro am y cynhwysion o'u dewis.

Sleid 5: O ble mae ein cynhwysion yn dod?

- I gymhwyso eu dysgu tarddiad bwyd o'r cam diwethaf, gofynnwch i'r plant ymchwilio o ble mae pob un o'r cynhwysion o'u dewis yn dod.
- Gan ddefnyddio 'Google tour builder', crëwch daith sy'n dechrau gyda basged siopa ac yn dangos o ble yn y byd y mae pob un o'u cynhwysyn dewisol yn dod a pha mor bell mae wedi teithio.
- Defnyddiwch y gweithgaredd hwn i arwain trafodaeth ar filltiroedd bwyd.

Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Pwnc	Testun	Amcan
Mathemateg	Adio a Thynnu	<ul style="list-style-type: none"> • Adio a thynnu rhifau gyda hyd at 4 digid gan ddefnyddio'r dulliau ysgrifenedig ffurfiol o adio a thynnu colofnau lle bo hynny'n briodol • Datrys problemau dau gam adio a thynnu mewn cyd-destunau, gan benderfynu pa weithrediadau a dulliau i'w defnyddio a pham
	Ffracsiynau	<ul style="list-style-type: none"> • Datrys problemau mesur ac arian syml sy'n cynnwys ffracsiynau a degolion i ddau le degol
	Mesur	<ul style="list-style-type: none"> • Amcangyfrif, cymharu a chyfrifo gwahanol fesurau, gan gynnwys arian mewn punnoedd a cheiniogau